Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

## Adroddiad Monitro Brexit

22 Ionawr 2019



Y Cynulliad a BREXIT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6307**
E-bost: **GarethDavid.Thomas@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

## Adroddiad Monitro Brexit

22 Ionawr 2019

**Awduron:**
Nigel Barwise, Peter Hill, Gareth Thomas, Megan Tomlinson

Y Cynulliad a BREXIT

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 1**

Crynodeb o'r datblygiadau ........ 1

**2. Y datblygiadau diweddaraf ........ 4**

Trafodaethau ar y Cytundeb Ymadael ........ 4

Paratoadau 'dim cytundeb' ........ 6

Deddfwriaeth ........ 7

**3. Y camau nesaf yn dilyn y bleidlais ystyrlon ........ 12**

**4. Meysydd eraill o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol ........ 14**

Cabinet Newydd Llywodraeth Cymru ........ 14

Trefniadau masnach ryngwladol ........ 14

Cysylltiadau rhynglywodraethol ........ 15

**5. Ymateb Llywodraeth Cymru ........ 16**

**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â thrafodaethau Erthygl 50 ar ymadawiad y DU â'r UE ers 19 Rhagfyr 2018. Mae'r papur hwn yn rhoi:

- Crynodeb o'r datblygiadau diweddaraf yn y trafodaethau a deddfwriaeth gysylltiedig y DU;
- Dadansoddiad o'r prif faterion o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (y Pwyllgor); a
- Crynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru i'r datblygiadau diweddaraf.

## Crynodeb o'r datblygiadau

- Yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Rhagfyr cafwyd dadl frys ar **Adael yr UE: Ymadawiad heb Gytundeb**.
- Ar 19 Rhagfyr **dywedodd Prif Weinidog yr Alban, Nicola Sturgeon** y dylai Llywodraeth y DU symud i ymestyn y broses Erthygl 50, er mwyn caniatáu amser i ddod o hyd i opsiynau heblaw cytundeb Brexit arfaethedig Prif Weinidog y DU a chanlyniad dim cytundeb.
- Ar 19 Rhagfyr cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei ddogfen ar ymadawiad 'heb gytundeb', **Implementing the Commission's Contingency Action Plan.** Ar ôl cyflwyno egwyddorion cyffredinol, mae'n amlinellu hawliau dinasyddion i aros a chydlynu nawdd cymdeithasol, gwasanaethau ariannol, cludiant awyr, cludiant ar y ffyrdd, tollau ac allforio nwyddau, polisi hinsawdd yr UE, a rhaglenni heddwch Gogledd Iwerddon.
- Hefyd ar 19 Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth Iwerddon ei Chynllun Gweithredu Wrth Gefn - **Preparing for the withdrawal of the United Kingdom from the European Union on 29 March 2019**.
- Ar 20 Rhagfyr croesawodd Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon ymrwymiad Llywodraeth y DU **(Ymateb y Llywodraeth** i 'Brexit and Agriculture in Northern Ireland') i beidio â gosod gwiriadau ychwanegol ar fewnforion cynhyrchion amaethyddol yn syth os nad oes unrhyw gytundeb Brexit, ond **pwysleisiodd bod cydweithrediad yr UE yn hanfodol bellach.**
- Ar 21 Rhagfyr cyhoeddodd Llywodraeth y DU **ddiweddariad ar ei pharatoadau ar gyfer senario 'heb gytundeb'.**

- Ar 7 Ionawr dywedodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford, mewn **datganiad i'r wasg am ymadawiad 'heb gytundeb',** "Byddai canlyniad o'r fath yn hynod niweidiol. Nonsens yw'r holl sôn am 'reoli' ymadawiad heb gytundeb. Byddai ymadael heb gytundeb yn creu niwed eithriadol, a rhaid ei osgoi."
- Ar 8 Ionawr gwnaeth y Prif Weinidog, Mark Drakeford, ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar **Y Diweddaraf ar Drefniadau Pontio'r UE.**
- Ar 11 Ionawr cyhoeddodd Pwyllgor Ymadael â'r UE Tŷ'r Cyffredin **Ymateb Llywodraeth y DU i Adroddiad y Pwyllgor ar hawliau dinasyddion y DU a'r UE.**
- Ar 14 Ionawr gwnaeth Prif Weinidog y DU ddatganiad am **Ymadael â'r UE,** a oedd yn canolbwyntio ar 'backstop ar gyfer Iwerddon-Gogledd Iwerddon'.
- Hefyd ar 14 Ionawr, mewn a **llythyr ar y cyd,** ysgrifennodd Llywydd Tusk, Llywydd y Cyngor Ewropeaidd, a Llywydd Juncker, Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, at Brif Weinidog y DU yn rhoi manylion statws cyfreithiol a gwleidyddol y Datganiad Gwleidyddol a'r 'backstop ar gyfer Iwerddon-Gogledd Iwerddon'. **Ysgrifennodd Prif Weinidog y DU at y ddau lywydd** hefyd.
- Ar 15 Ionawr yn ystod dadl yn Nhŷ'r Cyffredin ar **Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael),** cafodd y Llywodraeth ei threchu yn y 'Bleidlais Ystyrlon' gan bleidlais o 432-202, a chyhoeddodd Arweinydd yr Wrthblaid, Jeremy Corbyn, gynnig dim hyder. Mewn Pwynt o Drefn ar ôl y bleidlais, dywedodd Prif Weinidog y DU y byddai'n gwneud datganiad am y ffordd ymlaen ac yn cyflwyno cynnig diwygiedig erbyn dydd Llun 21 Ionawr.
- Ar 15 Ionawr gwnaeth Llywydd Juncker **ddatganiad ar fethiant y Bleidlais Ystyrlon yn Nhŷ'r Cyffredin, a siaradodd Frans Timmermans a Michel Barnier yn Senedd Ewrop.**
- Hefyd, ar 15 Ionawr, gwnaeth y Darpar Gwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit, Jeremy Miles, Ddatganiad Cyfarfod Llawn ar **Gynigion presennol Llywodraeth y DU ar gyfer Ymadael â'r UE**.
- Ar 16 Ionawr trechwyd y **cynnig o ddiffyg hyder yn Llywodraeth y DU.** Wedi hynny, **dywedodd Prif Weinidog y DU** y byddai'n "inviting MPs from all parties to come together to find a way forward. One that both delivers on the referendum and can command the support of Parliament. This is now the time to put self-interest aside. I have just held constructive meetings with the leader of the Liberal Democrats, and the Westminster leaders of the SNP and Plaid Cymru. From tomorrow, meetings will be taking place between senior Government representatives, including myself, and groups of MPs who represent the widest possible range of views from across Parliament – including our confidence and supply partners the Democratic Unionist Party."





- Hefyd ar 16 Ionawr, cynhaliodd y Cynulliad **ddadl** ar Brexit 'heb gytundeb', ac atebodd y Prif Weinidog **gwestiwn amserol** ar Bleidlais Senedd y DU ar Gytundeb Brexit Llywodraeth y DU. Cafodd y cynnig a gyflwynwyd ar gyfer dadl yn gofyn i'r Cynulliad wrthod Brexit 'heb gytundeb' ac yn gofyn i'r Prif Weinidog alw am gyfarfod brys o'r Cydbwyllgor Gweinidogol (Cyfarfod Llawn) ei basio o 37-16.
- Yn ogystal, ar 16 Ionawr, cyhoeddodd Pwyllgor Ymadael â'r EU Tŷ'r Cyffredin ei adroddiad **Response to the vote on the Withdrawal Agreement and Political Declaration: Options for Parliament.**
- **Ysgrifennodd y Prif Weinidog at Brif Weinidog y DU a**r 16 Ionawr yn mynegi ei farn ar y camau nesaf y dylai Llywodraeth y DU eu cymryd yn dilyn pleidlais Tŷ'r Cyffredin.
- Ar 17 Ionawr, **cyhoeddodd** Arweinydd y Tŷ Llywodraeth y DU y byddai Tŷ'r Cyffredin yn cael dadl diwrnod llawn ar 29 Ionawr mewn perthynas â datganiad a chynnig Llywodraeth y DU ar y camau nesaf y mae'n bwriadu eu cymryd ar ôl colli'r 'bleidlais ystyrlon'.
- Ar 17 Ionawr, fe wnaeth Jeremy Corbyn, Arweinydd yr Wrthblaid, ysgrifennu at y Prif Weinidog yn gofyn iddi ddiystyru Brexit 'heb gytundeb' cyn cwrdd â fe i drafod y ffordd ymlaen. Ymatebodd y Prif Weinidog drwy ddweud bod hyn yn 'amod amhosibl'.
- Ar 21 Ionawr, gwnaeth y Prif Weinidog **ddatganiad** i Dŷ'r Cyffredin, gan ddiweddaru'r Aelodau ar drafodaethau gydag arweinwyr pleidiau ac aelodau'r meinciau cefn. Dywedodd y bydd hi'n parhau i ystyried mater y 'backstop' mewn modd a all sicrhau y gefnogaeth fwyaf posibl, ac yna mynd â chasgliadau'r trafodaethau hynny yn ôl i'r UE.

# 2. Y datblygiadau diweddaraf

## Trafodaethau ar y Cytundeb Ymadael

### Dadl Tŷ'r Cyffredin ar y Cytundeb Ymadael a datblygiadau cysylltiedig

Ar 25 Tachwedd cafodd y **Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol** ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, fel y'i trafodwyd rhwng Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd, eu cymeradwyo gan arweinwyr yr UE-27 mewn uwchgynhadledd arbennig o'r Cyngor Ewropeaidd.

O dan **adran 13(1)(b) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018,** rhaid i unrhyw gytundeb ymadael a fframwaith ar gyfer y berthynas yn y dyfodol y cytunir arnynt gan Lywodraeth y DU â'r UE gael eu cymeradwyo gan benderfyniad Tŷ'r Cyffredin er mwyn eu cadarnhau. Gan ddechrau ar 4 Rhagfyr, trefnodd Llywodraeth y DU bum niwrnod o ddadl ar gadarnhau'r cytundeb, gyda'r bleidlais i'w chynnal ar 11 Rhagfyr.

Ar 10 Rhagfyr, ac ar ôl tridiau o ddadl, gwnaeth Prif Weinidog y DU **ddatganiad i'r Senedd y**n eu hysbysu y byddai'r bleidlais yn cael ei gohirio. Dywedodd, pe bai'r bleidlais yn digwydd y byddai'r cytundeb yn cael ei wrthod gan niferoedd sylweddol. Un o'r rhwystrau i'r gymeradwyaeth hon oedd anghytundeb ynghylch y posibilrwydd yng nghytundeb Prif Weinidog y DU ynghylch "backstop" Gogledd Iwerddon a chyhoeddodd Prif Weinidog y DU ei bod yn ceisio cael sicrwydd pellach gan yr UE ynglŷn â'r trefniadau hyn. Ar ôl trafodaethau gyda'r Cyngor Ewropeaidd, **amlinellodd** Prif Weinidog y DU "benderfyniad cadarn" y Cyngor i weithio ar gytundeb dilynol i osgoi sbarduno'r "backstop". At hynny, **cyhoeddodd Llywodraeth y DU bapur** yn tynnu sylw at ymrwymiadau mewnol Llywodraeth y DU i Ogledd Iwerddon a'i lle annatod yn y DU.

Cyn ailddechrau'r ddadl ar y 'bleidlais ystyrlon', ar 8 Ionawr cymeradwyodd Tŷ'r Cyffredin **welliant a gyflwynwyd gan ASau o'r pleidiau Ceidwadol a Llafur** i Fil Cyllid (Rhif 3) 2017-19 i gyfyngu ar bwerau ariannol Llywodraeth y DU pe bai Brexit 'heb gytundeb'. Byddai angen caniatâd penodol Senedd y DU i weithredu darpariaethau cytundeb 'heb gytundeb'. Drannoeth, pleidleisiodd Senedd y DU o blaid **gwelliant a gyflwynwyd gan Dominic Grieve AS i gynnig Busnes y Tŷ** sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU ddychwelyd i Dŷ'r Cyffredin i gyflwyno ei chamau nesaf o fewn 3 diwrnod gwaith i'r bleidlais ystyrlon (h.y. erbyn 21 Ionawr).

Ailgychwynnodd y ddadl yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ar 9 Ionawr. Trwy





gydol y ddadl, y "backstop" oedd y prif bwynt trafod. Ochr yn ochr â hyn, mynegodd ASau Cymru bryderon ynghylch effaith y cytundeb ar Gymru. **Ar ddiwrnod cyntaf y ddadl,** dywedodd Chris Elmore, AS Ogwr, fod y cytundeb yn peri ansicrwydd i'r 143,000 o bobl a gyflogir gan y diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru, yn ogystal ag i ddyfodol allforion amaethyddol, gyda 90% o gig oen Cymru yn cael ei allforio y tu allan i'r DU ac yn mynd i wledydd yn yr UE.

Ar 14 Ionawr cyhoeddodd Llywodraeth y DU **lythyrau** rhwng Prif Weinidog y DU a Llywyddion y Comisiwn Ewropeaidd a'r Cyngor Ewropeaidd mewn perthynas â 'backstop' Iwerddon-Gogledd Iwerddon. Gwnaeth Prif Weinidog y DU **ddatganiad i Dŷ'r Cyffredin** mewn perthynas â'r 'backstop' ar 14 Ionawr hefyd, gan ddweud:

> We have spoken at length about why we want to avoid the backstop, but it is not in the EU's interests either, for this backstop gives the UK tariff-free access to the EU's market, and it does so with no free movement of people, no financial contribution, no requirement to follow most of the level playing field rules and no need to allow EU boats any access to our waters for fishing. Furthermore, under these arrangements, UK authorities in Northern Ireland would clear goods for release into the EU single market with no further checks or controls. This is unprecedented and means the EU relying on the UK for the functioning of its own market, so the EU will not want this backstop to come into force, and the exchange of letters today makes it clear that, if it did, the EU would do all it could to bring it to an end as quickly as possible.
>
> Nevertheless, I fully understand that these new assurances still will not go as far as some would like.

Cynhaliwyd y bleidlais ar 15 Ionawr a chafodd cytundeb Prif Weinidog y DU **ei drechu.** Pleidleisiodd ASau o 432 i 202, gyda mwyafrif o 230 o bleidleisiau'n gwrthod y cytundeb.

**Ymatebodd** Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Jean-Claude Juncker i'r bleidlais gan ddweud:

> I urge the United Kingdom to clarify its intentions as soon as possible. Time is almost up.

Mewn ymateb i drechu'r cytundeb, cyflwynodd Arweinydd yr Wrthblaid 'bleidlais o ddiffyg hyder' y diwrnod canlynol, 16 Ionawr. Yn dilyn cyflwyno'r cynnig, addawodd Prif Weinidog y DU:

> I will then hold meetings with my colleagues, our confidence and supply partner the Democratic Unionist party, and senior parliamentarians from across the House to identify what would be required to secure the backing of the House.

Fe wnaeth addo hefyd y byddai'n gwneud datganiad am y ffordd ymlaen ac yn cyflwyno cynnig diwygiedig erbyn dydd Llun 21 Ionawr.

Ar 16 Ionawr, **trechwyd y cynnig diffyg hyder** gyda 306 o bleidleisiau o blaid y cynnig, a 325 o bleidleisiau'n cefnogi'r Prif Weinidog. Ailadroddodd y Prif Weinidog mai ei dyletswydd oedd canfod ffordd ymlaen a allai sicrhau cefnogaeth y Tŷ, ac amlinellodd ei bod wedi cynnig cyfres o gyfarfodydd rhwng uwch-seneddwyr a chynrychiolwyr y Llywodraeth dros y dyddiau nesaf.

## Paratoadau 'dim cytundeb'

Mae llawer o'r dadansoddiad hwn wedi'i gymryd o **erthygl y Gwasanaeth Ymchwil** a gyhoeddwyd ar 8 Ionawr, gyda rhywfaint o wybodaeth ychwanegol o sesiwn y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol **ar 7 Ionawr**.

Dros y mis diwethaf, mae Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cynyddu eu paratoadau i'r DU ymadael â'r UE o dan senario 'dim cytundeb'. Mae Llywodraeth y DU wedi parhau i ddiweddaru ei '**hysbysiadau technegol 'dim cytundeb',** gyda mwy na 100 wedi'u cyhoeddi.

Ar 18 Rhagfyr 2018, ymrwymodd Trysorlys y DU fwy na £2 biliwn o gyllid ychwanegol ar draws 25 o adrannau'r llywodraeth ar gyfer 2019-20 i baratoi ar gyfer y senario hon.

Mae'r dyraniadau Brexit mwyaf arwyddocaol yn cynnwys £480 miliwn i'r Swyddfa Gartref i gynyddu capasiti Llu'r Ffiniau, £410 miliwn i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i sicrhau 'masnach ddi-dor' mewn cynhyrchion bwyd-amaeth a physgodfeydd, a £375 miliwn i Gyllid a Thollau EM i gyflogi staff ychwanegol ar gyfer mwy o weithgarwch tollau. Mae cyllid canlyniadol Barnett i Lywodraeth Cymru sy'n deillio o'r gwariant hwn yn £31 miliwn.

Dechreuodd y Comisiwn Ewropeaidd weithredu ei gynllun 'dim cytundeb' wrth gefn ar 19 Rhagfyr, a **lansiodd 14 o gynigion 'dim cytundeb'** ar 19 Rhagfyr. Mae'r rhain yn cynnwys annog ei Aelod-wladwriaethau i ddangos agwedd hael at hawliau dinasyddion y DU yn yr UE, ar yr amod bod y DU yn gwneud darpariaeth gyfatebol hefyd; caniatáu i wasanaethau awyr rhwng y DU a'r UE barhau dros dro am gyfnod o 12 mis ar ôl i'r DU adael yr UE, a sicrhau y bydd trwyddedau hedfan yn parhau'n ddilys dros dro am 9 mis; a chaniatáu i gludwyr ffordd y DU gludo nwyddau dros dro i'r UE, ar yr amod bod y DU yn gwneud darpariaeth gyfatebol.





Mae Llywodraeth Iwerddon wedi cyhoeddi ei **chynllun wrth gefn ar gyfer Brexit 'heb gytundeb'** hefyd. Mae'n cyflwyno ei chynlluniau ar gyfer senario o'r fath gan gwmpasu nifer o feysydd polisi. Dywed y bydd angen gwiriadau a rheolaethau ychwanegol ar sail Dwyrain-Gorllewin mewn porthladdoedd a meysydd awyr. Mae seilwaith ychwanegol yn cael ei gynllunio ar gyfer porthladdoedd Dulyn a Rosslare, ac mae yna gynigion ar gyfer Maes Awyr Dulyn hefyd. Mae Llywodraeth Iwerddon yn awyddus i gadw'r defnydd o ffyrdd a phorthladdoedd y DU fel 'pont dir' rhwng Iwerddon a chyfandir Ewrop hefyd. Mae'r DU wedi trafod **parhau'n aelod o'r Confensiwn Trafnidiaeth Gyffredin** ar ôl Brexit, gan gynnwys mewn senario 'dim cytundeb'.

Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 7 Ionawr bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgymryd â nifer o gamau gweithredu i baratoi ar gyfer Brexit 'dim cytundeb'. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i baratoi ei hysbysiadau technegol 'dim cytundeb'.
- Datblygu cronfa drosglwyddo £50 miliwn yr UE, a chadw rhywfaint o'r arian a ddyrennir i hyn yn ôl i'w ddefnyddio pe bai yna Brexit 'dim cytundeb'.
- Defnyddio paratoadau wrth gefn sifil i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau uniongyrchol ac argyfwng ymadael â'r UE heb gytundeb.

Mae Llywodraeth Cymru wedi aildrefnu **Busnes y Cyfarfod Llawn ar gyfer 22 Ionawr** hefyd fel y bydd yna bum datganiad ar effaith Brexit 'heb gytundeb' gan Weinidogion, yn ogystal â diweddariad gan y Prif Weinidog ar y DU yn ymadael â'r UE.

## Deddfwriaeth

Mae'r **Bil Amaethyddiaeth** wedi cwblhau ei Gam Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. Nod y Bil yw darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin a sefydlu systemau newydd ar gyfer cymorth amaethyddol a rheoli tir ar draws y DU. Mae Atodlen 3 o'r Bil yn ymwneud yn benodol â Chymru a chafodd y pwerau hyn eu cynnwys ar gais Llywodraeth Cymru. Bwriedir i'r pwerau hyn bara am amser cyfyngedig nes i Lywodraeth Cymru gyflwyno ei Bil Amaethyddiaeth ei hun. Mae Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad (CCERA) a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (CLAC) ill dau wedi adrodd ar y **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** (LCM) mewn perthynas â'r Bil. Mae'r **Pwyllgor CCERA** wedi argymell y dylai'r Cynulliad gydsynio i'r darpariaethau yn y Bil, yn ddarostyngedig i amodau eang, gan gynnwys y dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrhau gwelliannau i Fil y DU ac y dylai roi ymrwymiadau

amrywiol i'r Cynulliad. Os na ellir bodloni'r amodau, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid cyfyngu'r caniatâd i'r darpariaethau yn Rhan 2, Atodlen 3 o'r Bil, sy'n galluogi i gymorth ariannol barhau yn syth ar ôl Brexit. Yn ei adroddiad, dywed CLAC ei fod yn bryderus nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'i Bil ei hun ar gyfer craffu yn y Cynulliad. Dywed, hyd nes y ceir ymateb gan Lywodraeth Cymru, nid yw mewn sefyllfa i ffurfio barn ynghylch a ddylai'r Cynulliad roi ei ganiatâd i gymalau'r Bil y cyfeirir atynt yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Mae'r **Bil Pysgodfeydd** wedi cwblhau ei Gam Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin hefyd. Mae'n darparu nifer o bwerau a fydd yn galluogi Gweinidogion y DU a Chymru i gyflwyno is-ddeddfwriaeth. Mae'r Bil yn cynnwys nifer o bwerau dirprwyedig eang ac nid yw'n nodi polisi manwl. Fel gyda'r Bil Amaethyddiaeth, mae'r Bil hwn yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â Chymru ar gais Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** mewn perthynas â'r Bil gerbron y Cynulliad ar 15 Tachwedd, a chyflwynwyd **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol** ar 10 Ionawr. Dywed Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn credu ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil gan y DU i sicrhau bod dull cyson ar draws y DU wrth greu'r fframwaith pysgodfeydd. Fodd bynnag, fel yn achos y Bil Amaethyddiaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn cyflwyno Bil Pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol. Lansiodd Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin **ymchwiliad byr** ar y cwmpas arfaethedig, y darpariaethau a'r pwerau yn y Bil, a chyhoeddwyd **y Bil fel y'i diwygiwyd** ar 18 Rhagfyr. Derbyniodd pwyllgor CCERA dystiolaeth ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan randdeiliaid **ar 16 Ionawr.**

Mae'r **Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol)** ar yr un pwynt yn ei daith seneddol, ar ôl cwblhau ei Gam Pwyllgor ar 29 Tachwedd. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ariannu a threfnu gofal iechyd y tu allan i'r DU a rhoi cytundebau gofal iechyd cyfatebol ar waith rhwng y DU a gwledydd eraill. Cyflwynwyd **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** ar gyfer y Bil ar 15 Tachwedd. Ynddo, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod y Bil yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod trigolion yn gallu parhau i elwa ar drefniadau gofal iechyd cyfatebol, ac yn nodi ei bod yn ffafrio dull cyson ledled y DU. Fodd bynnag, mae'n crybwyll pryderon hefyd ynghylch y graddau y bydd Llywodraeth Cymru yn ymwneud â llunio'r trefniadau gofal iechyd sydd i'w cyflwyno dan y Bil. Yn gynnar ym mis Ionawr 2019, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething, wedi rhoi tystiolaeth ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r **Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.**



**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

Cyflwynwyd y **Bil Masnach** ym mis Tachwedd 2017, sy'n darparu pwerau ar gyfer gweithredu cytundebau masnach ryngwladol ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu awdurdod rhwymedïau masnach. Mae'n cyffwrdd â materion datganoledig mewn sawl maes. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** gerbron y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2017, ond dywedodd na allai argymell bod y Cynulliad yn rhoi cydsyniad deddfwriaethol i'r Bil bryd hynny. **Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** a'r **Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** adroddiadau ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Ym mis Gorffennaf 2018 dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn croesawu'r gwelliannau a wnaed i'r Bil. Mewn **tystiolaeth** i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 17 Medi, dywedodd y Prif Weinidog ar y pryd ei fod yn croesawu'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, ond tynnodd sylw at un maes arall sy'n peri pryder ynghylch yr awdurdod rhwymedïau masnach arfaethedig. Ar 8 Hydref, cyhoeddodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad **ei adroddiad** ar Graffu ar reoliadau a wneir o dan y Bil Masnach. Dechreuodd Cyfnod Pwyllgor y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 21 Ionawr, pan bleidleisiodd Aelodau o blaid gwelliant sy'n golygu y bydd y Bil yn cael ei atal ar ôl y Cyfnod Pwyllgor. Ni fydd yn symud ymlaen i'r Cyfnod Adrodd nes bod y Llywodraeth wedi cyflwyno cynigion ar gyfer proses ar gyfer gwneud cytundebau masnach ryngwladol ar ôl Brexit.

Y Bil Brexit diweddaraf i'w gyflwyno yw'r **Bil Cydlynu Mewnfudo a Nawdd Cymdeithasol (Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd),** a gafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 20 Rhagfyr. Bydd y Bil yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y system fewnfudo yn y dyfodol unwaith y bydd y DU yn ymadael â'r UE. Mae'n rhoi terfyn ar ryddid i symud ac yn amddiffyn statws dinasyddion Gwyddelig yng nghyfraith fewnfudo'r DU. Bydd y Bil yn galluogi i newidiadau gael eu gwneud i'r rheolau cyfredol ar gyfer cydlynu nawdd cymdeithasol hefyd, gan gynnal cysondeb rhwng y system fewnfudo yn y dyfodol a threfniadau'r DU ar nawdd cymdeithasol yn y dyfodol. Ym marn Llywodraeth y DU, nid yw'r materion mewnfudo y mae darpariaethau'r Bil yn ymwneud â hwy o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Ar 19 Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei **Bil Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethu) 2018 drafft** i fynd i'r afael â'r 'bwlch llywodraethu' amgylcheddol yn dilyn Brexit. Roedd ei gyhoeddiad yn un o ofynion **Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.** Mae agweddau ar y  Bil drafft yn berthnasol yng Nghymru, gan gynnwys Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a'r egwyddorion amgylcheddol, ond dim ond mewn perthynas â materion a gedwir yn ôl. Mae'r Bil drafft yn cynnwys y bydd Gweinidogion y Goron yn 'ystyried' egwyddorion amgylcheddol wrth wneud

penderfyniadau. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Michael Gove, wedi gwahodd y gweinyddiaethau datganoledig i ymuno â chynigion DEFRA. Felly, gellid ymestyn cwmpas y Bil drafft i gynnwys meysydd datganoledig os yw Llywodraeth Cymru yn dewis mabwysiadu dulliau ar y cyd. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei gynlluniau hyd yma. Mae Cadeirydd Pwyllgor CCERA, Mike Hedges AC, wedi **ysgrifennu** at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i egluro beth yw ymagwedd Llywodraeth Cymru.

O ran **is-ddeddfwriaeth**, ym mis Ionawr 2019, diwygiwyd nifer yr offerynnau statudol Brexit gan y DU sydd eu hangen i baratoi'r llyfr statud ar gyfer Brexit i lawr o 800 i '**lai na 600**'. Hyd yn hyn, mae 322 o Offerynnau Statudol sy'n gysylltiedig â Brexit wedi'u cyflwyno ers i Ddeddf yr UE (Ymadael) dderbyn Cydsyniad Brenhinol ar 26 Mehefin 2018, ac mae 76 Offeryn Statudol wedi cwblhau eu hynt drwy Senedd y DU. O ran rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, mae 12 o offerynnau negyddol arfaethedig wedi'u cyflwyno i'w hystyried, o gyfanswm o '**oddeutu 50**'.

Mae Rheol Sefydlog 30C y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru, pan fydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion y DU o dan Ddeddf yr UE (Ymadael), gyflwyno **datganiad ysgrifenedig** yn hysbysu'r Cynulliad am y rheoliadau dan sylw. Pan fo'r rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno **Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol** hefyd. Erbyn hyn mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno 75 datganiad ysgrifenedig yn ymwneud â rheoliadau sydd i'w gwneud gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig, yn ogystal â 14 Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol. Yn y **Cyfarfod Llawn ar 16 Ionawr**, cyflwynodd Suzy Davies Gynnig Cydsyniad Offeryn Statudol ar **Reoliadau'r Amgylchedd Morol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018.** Yn ystod y ddadl ar y cynnig, tynnodd sylw at agwedd Llywodraeth Cymru tuag at is-ddeddfwriaeth Brexit a gallu'r Cynulliad i graffu ar offerynnau statudol yn effeithiol.

Mewn perthynas â chraffu ar ddeddfwriaeth Brexit yn fwy cyffredinol gan y Cynulliad, ym mis Rhagfyr **ysgrifennodd y Llywydd lythyr** at y Prif Weinidog ar y pryd Carwyn Jones, yn amlinellu materion a godwyd yng nghyfarfod y Fforwm Cadeiryddion ar 28 Tachwedd, pan drafodwyd rôl y Cynulliad o ran craffu ar ddeddfwriaeth gysylltiedig â Brexit. Roedd y llythyr yn dweud bod y Cadeiryddion yn crybwyll pryderon ynghylch rôl y Cynulliad yn y broses o ddeddfu ar gyfer Brexit. Roedd hyn yn cynnwys y ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio cael pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru yn nifer o Filiau'r DU sy'n ymwneud â Brexit, yn hytrach na chyflwyno ei Biliau ei hun i'r Cynulliad graffu arnynt. Soniodd hefyd am y ffaith bod Gweinidogion Cymru wedi cytuno i gyfran sylweddol o is-





ddeddfwriaeth Brexit sy'n cael ei gwneud gan Weinidogion y DU, gan ddefnyddio pwerau cydamserol ar ran Gweinidogion Cymru. Ymatebodd y Prif Weinidog newydd, Mark Drakeford, ar 11 Ionawr a dywedodd fod ymagwedd Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r angen i ymateb i'r 'amgylchiadau eithriadol' sy'n ymwneud â Brexit, yn hytrach nag unrhyw ymgais i rwystro rôl y Cynulliad fel deddfwrfa. Er iddo gytuno nad yw'r weithdrefn cydsyniad deddfwriaethol yn caniatáu i'r Aelodau gyflawni'r un lefel o graffu manwl ag y gallant ei wneud ar gyfer deddfwriaeth y Cynulliad, dywedodd na fyddai Llywodraeth Cymru wedi gallu cyflwyno cymaint o ddeddfwriaeth â hyn gerbron y Cynulliad mewn cyfnod mor fyr.

# 3. Y camau nesaf yn dilyn y bleidlais ystyrlon

Bydd Prif Weinidog y DU yn gwneud datganiad i Dŷ'r Cyffredin ar y camau nesaf yn dilyn y bleidlais ystyrlon ac yn cyflwyno cynnig diwygiedig erbyn dydd Llun 21 Ionawr. Mae'n anodd dweud beth fydd yn digwydd nesaf y tu hwnt i hyn, a bod Prif Weinidog y DU yn bwriadu cyfarfod â'i chydweithwyr yn ei phlaid, a'i phartneriaid hyder a chyflenwi ym Mhlaid yr Unoliaethwyr Democrataidd ac uwch-seneddwyr i geisio canfod ffordd ymlaen.

Mae **adroddiad** Pwyllgor Ymadael â'r UE Tŷ'r Cyffredin a gyhoeddwyd ar 16 Ionawr yn awgrymu y dylai ASau allu pleidleisio ar bedwar opsiwn ar yr hyn sy'n digwydd nesaf yn y broses Brexit, sef:

- Ail bleidlais yn y Senedd ar gytundeb y Llywodraeth;
- Ymadael â'r UE heb unrhyw gytundeb ar 29 Mawrth 2019;
- Galw ar Lywodraeth y DU i ail-drafod y cytundeb i gyflawni canlyniad penodol; neu
- Yn ogystal â phleidleisio ar y dewisiadau polisi ar gyfer ymadael â'r UE, p'un a ddylai senedd y DU gynnal ail refferendwm naill ai i benderfynu ar y math o Brexit neu a ddylid aros neu adael yr UE.

Hefyd, mae pedwar Aelod Seneddol y meinciau cefn—Nick Boles, Yvette Cooper, Geraint Davies a Dominic Grieve—wedi cyflwyno Biliau gerbron Tŷ'r Cyffredin. Cafodd bil Nick Boles, **Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (Rhif 2)** ei ddarlleniad cyntaf gerbron Tŷ'r Cyffredin ar 15 Ionawr. O dan y bil hwn, pe na bai Llywodraeth y DU yn gallu cynnig cytundeb sy'n dderbyniol i Dŷ'r Cyffredin, yna byddai'r Pwyllgor Cyswllt yn gallu datblygu cytundeb y byddai Tŷ'r Cyffredin yn pleidleisio arno, gyda Llywodraeth y DU yn gorfod gweithredu ei ddarpariaethau pe bai'n cael ei basio'n llwyddiannus. Fodd bynnag, gwrthododd y Pwyllgor Cyswllt gael ei gynnwys yn y modd arfaethedig hwnnw ar 16 Ionawr. Cafodd Bil Yvette Cooper, Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (Rhif 3) ei **gyflwyno i Dy'r Cyffredin** ar 21 Ionawr. Mae Nick Boles wedi nodi y bydd y Bil Rhif 3 hwn yn fersiwn ddiwygiedig o'i Fil ef, ac y bydd, i bob pwrpas, yn ei ddisodli. Nid yw Bil Rhif 3 yn cynnwys cyfeiriad ar y Pwyllgor Cyswllt fel yn y Bil Rhif 2, a byddai'n rhoi hyd at 26 Chwefror i'r Llywodraeth gael cymeradwyaeth seneddol ar gyfer Cytundeb Ymadael, gan ganiatáu i'r Senedd bleidleisio ar estyniad o Erthygl 50 os yw'n methu. Mae Dominic Grieve **wedi cyflwyno dau Fil** hefyd, gydag un yn galw am baratoi ar gyfer ail refferendwm a'r llall yn galw am ail refferendwm. Bydd **Bil Geraint Davies** i'w gwneud yn ofynnol cynnal refferendwm i gymeradwyo cytundeb ymadael y Deyrnas Unedig a Gibraltar





â'r UE neu i benderfynu aros yn yr UE yn derbyn ei Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Ionawr. Gan nad yw'r rhain yn Filiau Llywodraeth y DU, nid oes fawr o gyfle i ASau eu trafod a phleidleisio arnynt. Er enghraifft, derbyniodd y Bil a gyflwynwyd gan Geraint Davies y cyfeirir ato uchod ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Medi 2017.

Yn dilyn ei threchu yn y 'bleidlais ystyrlon', **ysgrifennodd y Prif Weinidog at Brif Weinidog y DU ar 16 Ionawr.** Mae'n tynnu sylw at yr angen i weithio er lles y DU yn ei chyfanrwydd ac estyn llaw i gyfaddawdu ar draws y sbectrwm gwleidyddol, gyda'r arweinwyr gwleidyddol ar draws Tŷ'r Cyffredin a chyda'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae'r Prif Weinidog yn galw am gyfarfod brys o'r Cyfarfod Llawn o'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion ac yn amlinellu nifer o gamau y dylid eu cymryd yn y cyfarfod hwn:

- Cael gwared ar ganlyniad ymadael 'heb gytundeb' o'r trafodaethau;
- Ymrwymo i gyfres o drafodaethau trawsbleidiol yn Senedd y DU ar unwaith a chydweithio â'r sefydliadau datganoledig i gytuno ar ffordd newydd ymlaen, y mae'n rhaid iddi gynnwys ail-negodi yn seiliedig ar ymrwymiad cadarn i gymryd rhan yn y farchnad sengl ac undeb tollau neu fynd yn ôl at ddinasyddion y DU trwy ymrwymiad i Etholiad Cyffredinol neu bleidlais gyhoeddus;
- Gofyn am estyniad i'r broses Erthygl 50 i hwyluso hyn;
- Deddfu i ddileu'r cyfeiriad at 29 Mawrth 2019 fel y Diwrnod Ymadael yn Neddf yr UE (Ymadael).

# 4. Meysydd eraill o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol

## Cabinet Newydd Llywodraeth Cymru

Ar 13 Rhagfyr 2018, **penododd** y Prif Weinidog, Mark Drakeford ei gabinet yn dilyn ei ethol yn Brif Weinidog.

Mae'r Prif Weinidog wedi penodi Eluned Morgan i arwain portffolio newydd fel **Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**, a hi fydd yn gyfrifol am hyrwyddo Masnach Ryngwladol; Cymru yn Ewrop; a manteisio i'r eithaf ar botensial swyddfeydd tramor Cymru.

Bydd y **Darpar Gwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit,** Jeremy Miles yn arwain gwaith Brexit Llywodraeth Cymru. Bydd yn gyfrifol am gynrychioli Llywodraeth Cymru ar y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Trafodaethau'r UE) a'r Fforwm Gweinidogol ar Drafodaethau'r UE; y Gronfa Ffyniant Gyffredin; ac yn goruchwylio deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Brexit.

Penodwyd Jane Hutt fel **Dirprwy Weinidog i weithio'n uniongyrchol i'r Prif Weinidog.** Bydd y Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog yn gweithio gyda'i gilydd ar nifer o feysydd, gan gynnwys Materion Cyfansoddiadol a chysylltiadau rhynglywodraethol, gyda hyblygrwydd o ran pa un fydd yn arwain ar faterion ar adeg benodol yn ôl blaenoriaethau'r llywodraeth.

## Trefniadau masnach ryngwladol

Ar 28 Rhagfyr, cyhoeddodd Pwyllgor Dethol Masnach Ryngwladol Tŷ'r Cyffredin ei adroddiad ar **UK trade policy transparency and scrutiny.** Darparodd Llywodraeth Cymru **dystiolaeth ysgrifenedig** i'r Pwyllgor.

Mewn perthynas â chyfranogiad gweinyddiaethau datganoledig wrth ddatblygu polisi masnach, daeth y Pwyllgor i'r casgliad:

> It is crucial that the Government take account of the views of each nation and region within the United Kingdom in formulating an independent trade policy. Current structures are not sufficiently robust to provide for structured engagement and extensive consultation.





Mae'n argymell bod Llywodraeth y DU yn ffurfio pwyllgor masnach ryngwladol rhynglywodraethol statudol ar gyfer y DU. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai fod gan Lywodraeth y DU ddyletswydd i ymgynghori â'r pwyllgor ar y mandad ar gyfer trafodaethau masnach yn y dyfodol; diweddaru'r pwyllgor yn rheolaidd ar gynnydd gyda'r trafodaethau; ac ymgynghori â'r pwyllgor ar destun terfynol cytundeb cyn ei gadarnhau. Yn ychwanegol, mae'n argymell y dylid cynnwys cynrychiolydd o bob un o'r gweinyddiaethau datganoledig a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol ar Grŵp Cynghori Masnach Strategol Llywodraeth y DU, er mwyn caniatáu ymgynghori manwl trwy gydol y broses negodi.

## Cysylltiadau rhynglywodraethol

Mae Pwyllgor Materion Albanaidd Tŷ'r Cyffredin yn ymgymryd ag ymchwiliad i'r **berthynas rhwng Llywodraethau'r Alban a'r DU** sy'n cwmpasu llawer o'r themâu sy'n deillio o waith y Pwyllgor ar gysylltiadau rhynglywodraethol a Brexit. Mae ei gylch gorchwyl yn cwmpasu effeithiolrwydd peirianwaith rhynglywodraethol megis y Cyd-bwyllgor Gweinidogol, p'un a allai Brexit olygu y byddai angen newidiadau i hyn yn arbennig yn ymwneud â fframweithiau cyffredin y DU, ac a ellir dysgu gwersi gan wledydd eraill. Mae'r ymchwiliad wedi derbyn tystiolaeth gan academyddion, a chan Lywodraethau Gwlad Belg a Chanada hefyd.

# 5. Ymateb Llywodraeth Cymru

Ar 13 Rhagfyr, cyflwynodd y Goruchaf Lys **ei ddyfarniad** wedi i Lywodraeth y DU gyfeirio achos ato mewn perthynas â Bil Parhad a Llywodraeth yr Alban. Ymatebodd Llywodraeth Cymru mewn **datganiad ysgrifenedig** ar 20 Rhagfyr gan y Darpar Gwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit Jeremy Miles, a ymyrrodd yn yr achos. Dywedodd:

- Nad oedd yr ymyrraeth yn yr achos yn ymwneud â Deddf Parhad Llywodraeth Cymru sydd wedi'i diddymu bellach, gan gadarnhau mai opsiwn wrth gefn yn unig ydoedd;
- Yn ei farn ef, pe bai Bil Parhad Llywodraeth Cymru wedi parhau mewn grym, byddai'n debygol y byddai wedi'i droi'n anweithredol hefyd; ac
- Mae'n amser symud ymlaen bellach a chanolbwyntio ar y darlun mwy.

Ar 7 Ionawr, yn dilyn cyfarfod y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Cyfarfod Llawn) (JMC(P)) ar 19 Rhagfyr, cyhoeddodd y Prif Weinidog **ddatganiad ysgrifenedig** gan amlinellu trafodaeth ar ddwy eitem ar yr agenda.

Yn gyntaf, ar ôl i Brif Weinidog y DU alw am i'r llywodraethau datganoledig i gefnogi ei chytundeb, pwysleisiodd y Prif Weinidog bod y Cynulliad yn gwrthod y cytundeb presennol gan ei hannog i newid ymagwedd Llywodraeth y DU at y trafodaethau. Nododd y datganiad, tra bo osgoi senario dim cytundeb yn hanfodol bwysig, ei fod yn galw am fwy o gydweithio rhynglywodraethol i gynllunio ar gyfer y senario honno.

Yn ail, yn dilyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol a gomisiynwyd gan JMC(P) ym mis Mawrth 2018, dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn tanlinellu'r angen i'r adolygiad hwn fynd yn ei flaen yn gyflym, o gofio'r llwyth sylweddol y bydd angen i'r peirianwaith rhynglywodraethol ei ysgwyddo ar ôl i'r DU adael yr UE.

Ar 8 Ionawr, gwnaeth y Prif Weinidog **ddatganiad llafar** yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar drefniadau pontio'r UE. Beirniadodd ymagwedd Llywodraeth y DU tuag at y gweinyddiaethau datganoledig:

> Nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gwneud unrhyw ymgais i sicrhau consensws trawsbleidiol ar gyfer ei strategaeth, nac wedi gwneud unrhyw ymgais o ddifrif i gytuno â'r gweinyddiaethau datganoledig ar ffordd o negodi.



**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

Bu'r Prif Weinidog yn trafod Brexit 'heb gytundeb' hefyd, a dywedodd fod pasio'r ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol i baratoi ar gyfer Brexit yn faich trwm o waith heb ei drefnu i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol. Gyda chyfran fawr o'r paratoadau ar gyfer Brexit 'heb gytundeb' yn nwylo Llywodraeth y DU, dywedodd eu bod wedi gweld Llywodraeth y DU, "yn rhy niwlog, rhy araf ac weithiau'n gwbl gyfrinachol" ac mai nawr yw'r amser ar gyfer bod yn wirioneddol agored ac ar gyfer cydweithrediad llawn. Daeth i ben drwy alw ar Lywodraeth y DU i ofyn i'r UE am estyniad i erthygl 50 fel y gellir cael etholiad cyffredinol neu bleidlais gyhoeddus os na allai gyflawni ei rôl.

Mynegodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths **bryderon ynghylch effaith** Brexit 'heb gytundeb' ar ffermio a physgodfeydd Cymru ar 14 Ionawr cyn cyfarfod gyda'i chymheiriaid yn Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn San Steffan. Dywedodd y Gweinidog y dylid osgoi senario 'dim cytundeb' ar bob cyfrif er mwyn amddiffyn cymunedau gwledig ac arfordirol Cymru. Amlygodd nifer o faterion sy'n peri pryder mewn senario 'heb gytundeb':

- Mae 90% o allforion cig coch a physgod cregyn yn mynd i'r UE felly bydd y posibilrwydd o dariffau uchel mewn senario heb gytundeb' yn ychwanegu at gost allforio;
- Mae pysgod cregyn Cymru yn cael eu cludo'n fyw ar hyn o bryd ac yn cyrraedd marchnadoedd yr UE o fewn 24 awr. Bydd oedi yn y gadwyn gyflenwi hon yn arwain at brisiau is i gynhyrchwyr o ganlyniad i bysgod cregyn o ansawdd gwaeth a chynnydd mewn marwolaethau pysgod cregyn; a
- Nid oes gan Calais Arolygfa Ffin, y byddai ei hangen ar gyfer allforion anifeiliaid byw a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid, a bydd hyn yn ychwanegu at gostau "cynhyrchu a biwrocratiaeth".

Ar 15 Ionawr, gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit **ddatganiad llafar** ar gynigion presennol Llywodraeth y DU ar gyfer ymadael â'r UE, gan ddweud:

> Does gan fewnforwyr ac allforwyr ddim sicrwydd o gwbl o ran sut bydd eu busnesau'n gweithredu mewn ychydig wythnosau. Mae cynnyrch amaethyddol yn wynebu tariffau andwyol, ac fe allai'r peryg o ddryswch yn ein porthladdoedd effeithio ar gyflenwadau o bob math, o rannau ceir i feddyginiaethau neu ffrwythau a llysiau ffres.

Roedd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit yn feirniadol o ddiffyg safbwynt clir Llywodraeth y DU trwy gydol y trafodaethau, gan gymharu hynny â chynigion clir Llywodraeth Cymru.  Daeth i ben drwy ailddatgan safbwynt Llywodraeth Cymru:

> We believe Wales's vital interests are best preserved through participation in the single market across the whole economy, including services. That's what business wants and that's what investors need. We should remain in a customs union, which is essential to avoid increased friction at the border, and which delivers free trade with so many countries.

Ar 18 Ionawr, lansiodd Llywodraeth Cymru wefan **Paratoi Cymru.** Ei bwrpas yw hysbysu dinasyddion a sefydliadau am y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i baratoi ar gyfer Brexit 'dim cytundeb'. **Dywedodd y Gweinidog Brexit Jeremy Miles** nad oedd angen i bobl wneud newidiadau yn eu bywydau beunyddiol i baratoi ar gyfer sefyllfa 'dim cytundeb' posibl, a phwysleisiodd mai pwrpas y wefan oedd disgrifio gwaith y Llywodraeth yn y maes yma.